Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Cynllun gweithgaredd

# Deall y Cod Cefn Gwlad

## Amser a awgrymir ar gyfer y gweithgaredd

**10 awr a mwy i gwblhau'r holl weithgareddau**

## Lleoliad

**Dan do neu yn yr awyr agored**

## Cyd-destun

Mae'r gweithgareddau hyn yn egluro pwrpas y Cod Cefn Gwlad a sut mae wedi newid dros amser. Maen nhw'n gofyn i ddysgwyr feddwl am eu barn eu hunain am gefn gwlad ac yn eu hannog i ystyried a pharchu barn a chredoau defnyddwyr eraill. Anogir y dysgwyr wedyn i ystyried Cod Cefn Gwlad y dyfodol.

Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw ceisio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ei holl waith. Mae hyn yn golygu gwarchod aer, tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a phridd i wella llesiant Cymru a darparu dyfodol gwell i bawb.

### Cwricwlwm i Gymru

| Y Dyniaethau | Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu | Mathemateg a Rhifedd |
|---|---|---|
| • **Yr hyn sy'n bwysig** - Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol. | • **Yr hyn sy'n bwysig** – Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu. | • **Yr hyn sy'n bwysig** – Defnyddir y system rifau i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau. |
| • **Yr hyn sy'n bwysig** – Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd. | • **Yr hyn sy'n bwysig** – Mae llenyddiaeth yn tanio'r dychymyg ac yn ysbrydoli creadigrwydd. | |
| • **Yr hyn sy'n bwysig** – Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol. | | |

## Fframwaith Cymhwysedd Digidol

Mae cwblhau'r gweithgareddau hyn yn rhoi cyfleoedd i ddiwallu llinynnau canlynol y Fframwaith Cymhwysedd Digidol.

| Rhyngweithio a chydweithio | Cynhyrchu |
|---|---|
| • Cyfathrebu | • Cyrchu, chwilio a chynllunio cynnwys digidol |
| • Cydweithredu | • Creu cynnwys digidol |

## Amcanion

Bydd dysgwyr yn gallu:

- Deall sut mae pobl yn gweld cefn gwlad.
- Ystyried gwrthdaro rhwng defnyddwyr cefn gwlad a nodi atebion posibl i sicrhau defnydd cytûn o gefn gwlad Cymru.
- Edrych ar sut mae'r cod wedi cael ei hyrwyddo dros amser ac ystyried sut y gellid ei hyrwyddo yn y dyfodol.
- Deall sut a pham mae defnydd pobl o gefn gwlad wedi newid.
- Egluro beth mae'r Cod Cefn Gwlad yn ei gynnwys a deall yn fwy manwl y Cod Rheolwyr Tir a'r Cod Cerdded Cŵn.

## Adnoddau ac offer

Nid oes angen unrhyw offer arbenigol gan fod pob gweithgaredd yn seiliedig ar drafodaeth; fodd bynnag, gall rhai pecynnau technoleg gwybodaeth fod yn ddefnyddiol ar gyfer gweithgareddau penodol.

- Nodyn gwybodaeth – Deall y Cod Cefn Gwlad
- Cyflwyniad PowerPoint – Hanes y Cod Cefn Gwlad
- Cynllun gweithgaredd – Deall y Cod Cefn Gwlad – Sut y gallwn ni fod yn ymwelwyr cyfrifol
- Ymgyrchu dros natur – Rhedeg ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol
- Nodyn gwybodaeth – Cerdded cŵn yng nghefn gwlad
- Cardiau adnoddau – Chwarae rôl: Rhoi'r Cod Cefn Gwlad ar waith
- Cyfoeth Naturiol Cymru / Darparu'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol drwy natur
- Cyfoeth Naturiol Cymru / Tanau gwyllt
- Y Cod Cefn Gwlad
- Y Cod Cerdded Cŵn
- Cod Rheolwyr Tir

## Gweithgaredd un – Pa mor dda y mae eich dysgwyr yn gwybod y cod?

Cynhaliodd YouGov a'r Cerddwyr arolwg ar-lein ym mis Mawrth 2023 o 4,284 o bobl ledled Prydain i ymchwilio i fanteision a rhwystrau o ran ymweld â chefn gwlad. Roedd yn cynnwys adran am wybodaeth am y Cod Cefn Gwlad.

| Oedran | Lefel gwybodaeth |
|---|---|
| 18-24 | 17% |
| 25-34 | 16% |
| 35-44 | 23% |
| 45-54 | 29% |
| 55+ | 39% |

Yn gyffredinol, roedd llai na thraean yr ymatebwyr yn hyderus eu bod yn gwybod am y Cod Cefn Gwlad (yng Nghymru a Lloegr) neu God Mynediad i'r Awyr Agored yr Alban. Roedd lefel yr wybodaeth yn amrywio gydag oedran.

**a.** Gofynnwch i'ch dysgwyr blotio'r data ar siart bar. Ydyn nhw'n gallu esbonio beth mae'n ei ddangos a thrafod eu canfyddiadau?

**b.** Ydyn nhw'n gallu esbonio pam mae'r lefelau gwybodaeth yn cynyddu wrth i rywun fynd yn hŷn?

**c.** Gofynnwch i'r dysgwyr amcangyfrif pa % o bobl dan 18 oed oedd â gwybodaeth am y Cod Cefn Gwlad? Ydyn nhw'n meddwl y bydd yn llai nag ar gyfer pobl ifanc 18-24 oed neu'n uwch?

**ch.** Gan ddefnyddio ein hadnoddau 'Ymgyrchu dros natur - Rhedeg ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol' heriwch eich dysgwyr i gynllunio ymgyrch cyfryngau cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth o'r cod yn eu lleoliad neu ardal ddaearyddol ymysg y rhai dan 18 oed.

## Gweithgaredd dau – Coladu barn pobl

**a.** Gofynnwch i'r dysgwyr ysgrifennu deg gair maen nhw'n eu cysylltu â chefn gwlad ac yna eu rhannu gyda'r grŵp. Gellid gwneud hyn hefyd gan ddefnyddio apiau cydweithredu fel WordClouds neu fyrddau gwyn cydweithredol. Pa eiriau sy'n ymddangos amlaf? Ydyn nhw'n gadarnhaol neu'n negyddol? A oes patrwm?

**b.** Gofynnwch i'r dysgwyr wneud yr un gweithgaredd trwy goladu geiriau gan eu rhieni neu eu neiniau a'u teidiau. A yw'r geiriau yr un fath neu'n wahanol? Pam mae eich dysgwyr yn meddwl bod gan bobl farn wahanol am gefn gwlad? Beth all ddylanwadu ar sut mae rhywun yn teimlo/meddwl? Ystyriwch ffactorau fel rhywedd, oedran a phrofiad.

**c.** Gan weithio mewn grwpiau bach, gofynnwch i'ch dysgwyr ddylunio holiadur i ganfod barn pobl am fynediad i gefn gwlad. Cadwch y cwestiynau'n syml i'w gwneud yn hawdd eu dadansoddi a sicrhewch fod y mathau o gwestiynau a ofynnir yn amrywiol. Mae'n arfer da gofyn rhai cwestiynau sydd ag ymateb 'caeëdig' er mwyn casglu atebion ie neu nage y gellir eu coladu a'u troi'n ddata rhifiadol a'u dadansoddi'n hawdd. Megis 'Ydych chi'n mwynhau ymweld â chefn gwlad?' 'Ydw' neu 'Nac ydw'. Gall cwestiynau sydd ag ymateb 'agored' gasglu barn a syniadau gan yr ymatebydd. Enghraifft o hyn yw 'Beth ydych chi'n ei fwynhau am ymweld â chefn gwlad?'

Gellid cwblhau'r gweithgaredd hwn dros sawl sesiwn a gallai fynd i fwy o fanylion. Er enghraifft, gallai dysgwyr ganolbwyntio ar y gwahanol fathau o gwestiynau, archwilio llunio holiaduron, dadansoddi'r data a gasglwyd, a chyflwyno eu data. Dylai pob grŵp anelu at gael pedwar i bump o ymatebion. Gellid gwneud hyn yn ddigidol gan ddefnyddio ap fel Google Forms neu fel ymarfer papur mwy traddodiadol. Yna gellir dadansoddi a chyflwyno ymatebion.

## Gweithgaredd tri – Gwrthdaro ymwelwyr ac atebion

**a.** Mae'r gweithgaredd hwn yn cynnwys dysgwyr yn dangos empathi neu'n rhoi eu hunain yn esgidiau person arall. Gan adeiladu ar y gweithgaredd blaenorol, gofynnwch i'r dysgwyr egluro eu dealltwriaeth o'r gair empathi. Gallai dysgwyr weithio mewn parau i drafod y canlynol:

- Rhowch eich hun yn esgidiau rheolwr tir – beth yw'r prif faterion yn eich barn chi wrth reoli pobl sy'n cael mynediad i gefn gwlad? Pa ddatrysiadau allwch chi eu cynnig? Beth allwch chi ei wneud i gyfathrebu ag ymwelwyr eraill am y ffordd orau o ymweld er mwyn achosi cyn lleied o wrthdaro neu niwed â phosibl?
- Rhowch eich hun yn rôl defnyddiwr llwybr sy'n croesi tir ffermio – beth yw'r prif faterion a wynebir wrth ddefnyddio'r llwybrau? Sut dylech chi ymddwyn yn gyfrifol wrth ddefnyddio'r llwybr?
- Rhowch eich hun yn lle swyddog cadwraeth sy'n ceisio gwarchod cynefinoedd a rhywogaethau prin – beth yw'r prif faterion y byddai angen i chi eu rheoli ynghylch mynediad i gefn gwlad? Pa ddatrysiadau allwch chi eu cynnig? Beth allwch chi ei wneud i gyfathrebu ag ymwelwyr eraill am y ffordd orau o ymweld er mwyn achosi cyn lleied o wrthdaro neu niwed â phosibl i'r cynefinoedd a rhywogaethau prin?

**b.** Gan ddefnyddio amrywiaeth o bapurau newydd neu wefannau newyddion digidol dros gyfnod o wythnos, fel papurau tabloid, dalen lydan, lleol a chenedlaethol, gofynnwch i'r dysgwyr nodi'r materion sy'n wynebu pobl sy'n byw ac yn gweithio yng nghefn gwlad. A allant ddod o hyd i enghreifftiau o gytgord neu wrthdaro yng nghefn gwlad?

**c.** Beth yw'r materion presennol sy'n wynebu pobl sy'n byw ac yn gweithio yng nghefn gwlad? Ym mha ffyrdd mae'r Cod Cefn Gwlad yn lleihau gwrthdaro rhwng grwpiau o bobl?

**d.** Gan ddefnyddio'r Cardiau adnoddau – Chwarae rôl: Rhoi'r Cod Cefn Gwlad, rhannwch rolau rhwng dysgwyr. Gan weithio mewn grwpiau os oes angen, cynhaliwch gyfarfod cyhoeddus ffug yn seiliedig ar y senario. Mae'r cyfarfod wedi cael ei alw gan dirfeddianwyr lleol, sy'n pryderu am broblemau posib y gallai ymwelwyr eu hachosi. A all dysgwyr drafod y problemau a dod o hyd i ddatrysiadau a ffordd ymlaen sy'n addas i'r holl randdeiliaid?

## Gweithgaredd pedwar – Hyrwyddo'r Cod Cefn Gwlad

Defnyddiwch ein Nodyn gwybodaeth – Hanes y Cod Cefn Gwlad a'r Cyflwyniad PowerPoint – Hanes y Cod Cefn Gwlad i gwblhau rhai o'r tasgau hyn, neu'r tasgau hyn i gyd, yn dibynnu ar oedran a gallu.Mae'r cyflwyniad yn cynnwys posteri a ffilmiau o'r cod o wahanol gyfnodau.

Gofynnwch i'ch dysgwyr:

**a.** Egluro pa un yw eu hoff boster neu ffilm a pha un y maent yn ei hoffi leiaf a rhowch resymau pam.

**b.** Penderfynu pa boster neu ffilm sy'n hyrwyddo'r cod orau a rhannu eu rhesymau pam.

**c.** Disgrifio sut mae'r eirfa a ddefnyddir yn y cod wedi newid dros amser, er enghraifft:

- 1951 'Parchwch fywyd Cefn Gwlad'.
- 2021 'Parchwch bawb'.
- Byddwch yn ystyriol o'r rhai sy'n byw yng nghefn gwlad, yn gweithio ynddo ac yn ei fwynhau.
- Byddwch yn glên, dywedwch helô, rhannwch y gofod.

**ch.** Awgrymu sut y gellid cyfleu'r negeseuon a gwneud hynny i gynulleidfa ehangach. Pa dechnegau y gellid eu defnyddio yn y dyfodol i godi ymwybyddiaeth o'r Cod Cefn Gwlad?

## Gweithgaredd pump – Sut a pham mae defnydd pobl o gefn gwlad wedi newid?

**a.** Gan ddefnyddio'r adran data ac ystadegau ychwanegol (tudalen 8) yn y Nodyn gwybodaeth – Hanes y Cod Cefn Gwlad fel man cychwyn, gofynnwch i'r dysgwyr ystyried sut mae'r DU wedi newid ers i'r cod gael ei ddatblygu gyntaf?Ystyriwch agweddau fel poblogaeth, cyfoeth, safonau byw, perchnogaeth ceir, trafnidiaeth gyhoeddus, cyfryngau digidol a datblygiadau technolegol – mae pob un ohonynt wedi cael effaith ar ddefnydd y cyhoedd o gefn gwlad.

**b.** Yna gall dysgwyr ymchwilio a chyflwyno sut a pham mae gweithgareddau hamdden wedi newid ers y 1950au.

**c.** Arweiniwch y dysgwyr i nodi a yw'r materion a sbardunodd ddatblygiad y Cod Cefn Gwlad yn dal i fod yn berthnasol heddiw?

Ystyriwch ffactorau fel:

- Twf ym mhoblogaeth y DU.
- Deddfau newydd i warchod tirwedd a bywyd gwyllt, megis Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 a Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.
- Newidiadau mewn diddordebau a'r gweithgareddau y mae pobl yn cael blas arnynt.
- Mae datblygiadau technolegol wedi galluogi dod o hyd i lwybrau trwy ddulliau electronig ac wedi gwella dillad ac offer awyr agored.

- Ymgyrchoedd teithio llesol, sy'n annog pobl i ddefnyddio'u llai ar eu ceir a cherdded a beicio mwy. Mae cerdded yn cynyddu mewn poblogrwydd.
- Argyfwng gordewdra'r DU – pa rôl mae treulio amser yn yr awyr agored yn ei chwarae wrth helpu i fynd i'r afael â'r mater?
- Mwy o ymwybyddiaeth o faterion iechyd meddwl a'r rôl y gall treulio amser yn yr awyr agored ei chwarae wrth helpu i wella iechyd meddwl.
- Mwy o ymwybyddiaeth o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Mae gan y rhai â symudedd cyfyngedig fwy o fynediad i gefn gwlad oherwydd bod y Ddeddf yn sicrhau bod yn rhaid i bawb allu cael mynediad i gefn gwlad at ddibenion hamdden.
- Effaith pandemig COVID-19. Fe wnaeth y cyfyngiadau symud ailgysylltu llawer o bobl â cherdded a thynnu sylw at fanteision bod yn yr awyr agored gan ei fod yn un o ychydig o weithgareddau a ganiateid y tu allan i'r cartref.

## Gweithgaredd chwech – Cerdded cŵn yng nghefn gwlad

**a.** Gan ddefnyddio'r Nodyn gwybodaeth – Cerdded cŵn yng nghefn gwlad ynghyd â'r Cod Cerdded Cŵn (cod gweithgaredd sy'n rhan o deulu'r Cod Cefn Gwlad) ac ymchwil ychwanegol, gofynnwch i'r dysgwyr gyfweld â phobl i gael eu barn am fynd â chŵn am dro yng nghefn gwlad ac ysgrifennu eu canfyddiadau mewn arddull erthygl papur newydd.

**b.** Dilynwch hyn drwy ofyn i'r dysgwyr ddylunio poster neu ddelwedd electronig i annog pobl i fynd â chŵn am dro mewn ffordd gyfrifol neu drafod rhai o'r prif bwyntiau y mae'r Cod Cerdded Cŵn yn mynd i'r afael â nhw.

## Gweithgaredd saith – Y cod, rheolwyr tir a thirfeddianwyr

Mae tirfeddianwyr a rheolwyr tir yn goruchwylio rhedeg, defnydd a chadwraeth y tir y maent yn gyfrifol amdano o ddydd i ddydd. Maent yn amrywio o dirfeddianwyr preifat sydd â llwybrau troed yn croesi eu gerddi neu dir, ffermwyr tenant sy'n rhentu ac yn gweithio'r tir, a gweithwyr sy'n gweithio i ystadau preifat, gan sicrhau eu bod yn cael eu rhedeg yn effeithiol ac yn broffidiol. Gall tir hefyd gael ei reoli gan elusennau fel yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a sefydliadau fel Cyfoeth Naturiol Cymru, sy'n rheoli ardaloedd o gefn gwlad ar ran Llywodraeth Cymru.

**a.** Mae'r Cod Rheolwyr Tir yn rhoi cyngor i reolwyr tir i helpu ymwelwyr i ddilyn y Cod Cefn Gwlad ac yn sicrhau eu bod yn deall eu hawliau a'u cyfrifoldebau. Gofynnwch i'ch dysgwyr ymchwilio i'r hyn y dylai rheolwyr tir fod yn ei wneud i sicrhau bod eu tir yn hygyrch ac yn ddiogel.

**b.** A oes unrhyw beth y mae eich dysgwyr yn teimlo sydd ar goll o'r Cod Rheolwyr Tir?

**c.** Ai rheolwyr tir ddylai ysgwyddo costau cynnal a chadw a chydymffurfio â'r Cod Rheolwyr Tir?

**ch.** Ai'r rheolwyr tir sydd angen eu haddysgu ynteu'r cyhoedd yn gyffredinol?

**d.** Ai ffermwyr a rheolwyr tir ddylai benderfynu beth sy'n gweithio orau i'w fferm neu i'w tir?

**dd.** A yw'r Cod Rheolwyr Tir yn uno cymunedau gwledig ac ymwelwyr trwy ganolbwyntio ar werthfawrogiad a rennir o gefn gwlad?

**e.** A all pobl brofi byd natur yn ddiogel wrth gefnogi rheolwyr tir ac osgoi difrod i eiddo a da byw ac enghreifftiau o ymddygiad gwrthgymdeithasol fel taflu sbwriel?

## Gweithgaredd wyth – Rheoleiddio ymddygiad yng nghefn gwlad

***"Rydym yn ystyried y Cod Cefn Gwlad fel craidd y bydd corff o wybodaeth am gefn gwlad yn tyfu o'i amgylch. Wrth i wybodaeth ledaenu, dylai fod llawer llai o niwed yn cael ei wneud, yn aml o ganlyniad i ddiffyg ystyriaeth llwyr pobl sydd â bwriadau da. Trwy hyn oll, gobeithiwn y bydd parch a chyfeillgarwch cynyddol rhwng gwladwr a threfwr."***

Dyfyniad gan ddylunwyr y Cod Cefn Gwlad gwreiddiol, 1951

Disgrifiodd un aelod o Dŷ'r Arglwyddi hyn fel "...y gwerth pedwar ceiniog gorau o synnwyr cyffredin a ddarllenodd erioed!"

Mae'r Cod Cefn Gwlad yn fath o reoliad meddal (canllawiau sy'n annog ymddygiad da yn hytrach na'i orfodi), er bod rhai elfennau wedi'u hategu gan ddeddfwriaeth fel cyfreithiau ynghylch tipio anghyfreithlon a baw cŵn, a hawl gyfreithiol ffermwr i saethu cŵn sy'n poeni defaid.

**a.** Gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn grwpiau a thrafod a ydyn nhw'n meddwl bod y pwysau ar gefn gwlad yn fwy neu'n llai nag yr oedd pan gafodd y Cod Cefn Gwlad ei gyflwyno gyntaf yn 1951 a rhoi rhesymau dros eu barn.

**b.** A oes unrhyw faterion sy'n haeddu rheoleiddio 'caletach'? Pa ddewisiadau amgen 'anoddach' allai fod, neu a oes angen i ni feddwl yn wahanol am dactegau i annog newid ymddygiad? A yw eich dysgwyr yn meddwl y byddai'r rhain yn gweithio / y gellid eu gorfodi?

Er enghraifft:

- Gall pobl sy'n gollwng sbwriel gael dirwy neu wynebu erlyniad yn y llys. Mae gan swyddogion awdurdodedig y pŵer i godi tâl cosb benodedig o hyd at £150 am drosedd sbwriel, yn lle erlyn. Os bydd y troseddwr yn cael ei erlyn a'i gael yn euog yn y llys, fe allai'r ddirwy godi i £2,500 (Keep Britain Tidy).
- Mae cynnau tanau yn fwriadol yn drosedd. Mae'n torri'r gyfraith a gall arwain at garchar am oes. Gelwir y drosedd hon yn dân bwriadol. Mae adran 4 o Ddeddf Difrod Troseddol 1971 yn amlinellu uchafswm cosb o garchar am oes am danau bwriadol gwaethygedig (Cyfoeth Naturiol Cymru).

**c.** Gofynnwch i'ch dysgwyr rannu eu syniadau / codi ymwybyddiaeth trwy ymgyrch cyfryngau cymdeithasol neu flog fideo amglycheddol gan ddefnyddio'r adnoddau hyn Cyfoeth Naturiol Cymru - Darparu'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol drwy natur.

Am fwy o adnoddau ar danau gwyllt, gweler yma: Cyfoeth Naturiol Cymru – Tanau gwyllt.

## Gweithgaredd naw – Dyfodol y cod

Bydd y Cod Cefn Gwlad yn parhau i esblygu i gyd-fynd â'r newid yn y boblogaeth.

**a.** Gan ddefnyddio ein Nodyn gwybodaeth – Hanes y Cod Cefn Gwlad a'r Cyflwyniad PowerPoint – Hanes y Cod Cefn Gwlad, gall dysgwyr edrych yn ôl ar rai o fideos a phosteri hyrwyddo'r gorffennol.

**b.** Trafodwch gyda'r dysgwyr sut ddylai God Cefn Gwlad 2051 edrych.

**c.** Yna gofynnwch i'r dysgwyr ddylunio graffigyn, poster neu fideo i gyd-fynd â'i hyrwyddiad.

## Cwestiynau allweddol awgrymedig

- Beth mae pobl yn ei feddwl ac yn ei deimlo am gefn gwlad a pham mae hyn yn amrywio?
- Sut a pham mae'r Cod Cefn Gwlad wedi newid dros amser?
- Sut mae'r Cod Cefn Gwlad wedi cael ei hyrwyddo dros amser a pham mae'r dulliau hyn wedi newid?
- Beth mae Cod Cefn Gwlad heddiw yn anelu at ei wneud a sut dylai'r cod newid yn y dyfodol?

## Addasiadau ar gyfer gwahanol anghenion/galluoedd

**Mwy o gymorth**

- Defnyddiwch Nodyn gwybodaeth – Hanes y Cod Cefn Gwlad a'r Cyflwyniad PowerPoint – Hanes y Cod Cefn Gwlad fel y prif adnodd addysgu i drafod gyda'r dysgwyr sut a pham mae'r cod wedi newid dros amser.
- Dylech hepgor gweithgareddau chwech, wyth a naw.

**Mwy o heriau**

- Gofynnwch i'ch dysgwyr feddwl am rai o'r mathau o ymddygiad negyddol y gallai pobl ei ddangos yng nghefn gwlad, fel gollwng sbwriel, cynnau barbeciw neu danau, a chrwydro oddi ar y llwybr. Pam y byddai ymwelwyr yn gwneud y pethau hyn? A all eich dysgwyr ystyried beth sy'n gweithio neu beth allai weithio i atal y rhai sy'n ymweld â chefn gwlad rhag cyflawni'r gweithgareddau hyn?

- Gallech ofyn i'ch dysgwyr drafod a all pawb fwynhau'r byd naturiol mewn cytgord â bywyd gwyllt, yr amgylchedd a'r bobl sy'n gweithio ynddo?

**Gweithgareddau dilynol / tasgau estynedig**

- Anogwch y dysgwyr i wylio rhaglenni teledu sy'n canolbwyntio ar gefn gwlad fel Countryfile, Ffermio, Springwatch, Coast and Countryside, Down on the Farm, Ranger Hamza's Eco Quest, Kim a Cêt a Twrch, Cefn Gwlad neu Ein Byd Bach Ni. Beth allant ddysgu am gefn gwlad heddiw o wylio'r rhaglenni hyn?
- A oes gweithgaredd nad yw'n dod o dan Deulu'r Cod Cefn Gwlad? Gofynnwch i'r dysgwyr ddylunio eu cod eu hunain ar gyfer gweithgaredd nad yw wedi'i gynnwys.
- Ymchwiliwch i'r hyn sy'n cyfateb i'r Cod Cefn Gwlad mewn gwledydd eraill a chymharwch a chyferbynnwch hyn â Chod Cefn Gwlad Cymru a Lloegr.

## Adnoddau eraill

Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) sy'n gyfrifol am gynnwys sy'n gysylltiedig â'i gyfrifon ei hun. Fodd bynnag, dylid nodi nad yw CNC yn gyfrifol am gynnwys, safon na dibynadwyedd yr holl wefannau neu adnoddau y mae dolen iddynt yn y cynllun gweithgaredd hwn.

Pan nad yw cynnwys yn perthyn i CNC, ni ddylid cymryd y ffaith ei fod wedi'i restru fel cymeradwyaeth o unrhyw fath. Ni allwn warantu y bydd y dolenni hyn yn gweithio bob amser ac nid oes gennym unrhyw reolaeth dros argaeledd tudalennau cysylltiedig.

- Y Cerddwyr
- Y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad
- NFU Cymru
- Undeb Amaethwyr Cymru

**Dysgu yn yr amgylchedd naturiol, dysgu amdano a dysgu ar ei gyfer.**

**A ydych chi'n chwilio am fwy o adnoddau dysgu, gwybodaeth a data?**

Cysylltwch ag: **addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk** neu ewch i **https://cyfoethnaturiol.cymru/dysgu**

Ar gyfer fformat amgen, print bras neu iaith arall, cysylltwch ag: **ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk 0300 065 3000**



Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government